Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ynystawe Lodge

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/06/2017**

## Cyd-destun

Mae Ynystawe Lodge yn ysgol arbennig annibynnol gyda chartref plant cysylltiedig ym mhentref Ynystawe, ar gyrion dinas Abertawe. Mae'n darparu addysg i bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o fod ar y sbectrwm awtistig neu sydd ag amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Ar hyn o bryd, mae chwe disgybl rhwng 11 ac 17 oed yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn preswylio yn y cartref plant ar y safle. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae mwyafrif ohonynt yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Yn ddiweddar, mae'r perchenogion wedi penodi pennaeth addysg dros dro newydd i gefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Gydag amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran cyflawni'r targedau dysgu a nodwyd yn eu cynlluniau datblygu unigol (CDUau).

Mae'r holl ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau sy'n bodloni anghenion dysgu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio'u medrau cymdeithasol a chyfathrebu mewn sefyllfaoedd go iawn, fel mewn sesiynau beicio yn y parc lleol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno cylch priodol o weithgareddau sicrhau ansawdd. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddadansoddiad cywir o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae cysylltiadau clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau gwella a nodwyd gan yr ysgol. Mae'r holl staff addysg yn cyfrannu'n briodol at y prosesau hyn.

### Meysydd i'w datblygu

Ers yr ymweliad diwethaf, mae bron pob un o'r staff wedi mynychu ystod briodol o hyfforddiant ar strategaethau lleddfu a rheoli ymddygiad heriol yn ddiogel. O ganlyniad, mae staff yn rheoli'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn hyderus. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw'r strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol. Yn yr achosion hyn, nid oes digon o gymorth ac ymyrraeth therapiwtig ar gael i gefnogi anghenion cymhleth disgyblion. O ganlyniad, i ychydig ddisgyblion,

bu cynnydd nodedig yn nifer y digwyddiadau heriol yn yr ysgol ac yn hyd y digwyddiadau.

Mae ystod yr ymyriadau therapiwtig arbenigol sydd ar gael yn yr ysgol i gefnogi anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion yn gyfyngedig.

Mae ychydig ddisgyblion yn gwneud cynnydd annigonol o ran cyflawni'r targedau ymddygiad a nodwyd yn eu CDUau.

Megis dechrau datblygu cwricwlwm sy'n bodloni anghenion a diddordebau disgyblion mwy abl y mae'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyflawni cymwysterau lefel mynediad, pan fo'n briodol.

Mae'r pennaeth addysg dros dro yn dechrau datblygu cysylltiadau defnyddiol â darparwyr tebyg yn lleol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi ffurfioli'r cyfleoedd i'r holl staff addysg arsylwi arfer mewn lleoliadau tebyg a rhannu arfer orau gydag athrawon eraill.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Parhau i ddatblygu'r cwricwlwm i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl

A3 Sicrhau ystod o ymyriadau therapiwtig arbenigol i gefnogi lles emosiynol disgyblion a gwella ymddygiad ychydig ddisgyblion mwy cymhleth gydag amser

A4 Datblygu cyfleoedd i'r holl staff addysg arsylwi arfer orau mewn lleoliadau tebyg eraill

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn â'r broblem gydymffurfio a nodwyd yn ystod yr ymweliad monitro blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, nodwyd ychydig broblemau cydymffurfio yn ystod yr ymweliad monitro.

**Argymhelliad 2: Datblygu'r ardal awyr agored fel ei bod yn briodol i anghenion y disgyblion ac yn fan diogel ar gyfer gweithgareddau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi gwella'r ardaloedd awyr agored. Aethpwyd i'r afael â'r problemau â'r draeniau a gwnaed gwaith adfer i wneud yr ardal yn fwy deniadol. Mae gan y gerddi braf ddarnau cadarn o offer chwarae, gan gynnwys trampolîn a siglen. Mae staff addysg yn dechrau cynnwys yr ardal awyr agored yn briodol wrth gynllunio gwersi dyddiol.

**Argymhelliad 3: Sefydlu strwythur staffio parhaol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol yn datblygu tîm parhaol o staff addysg profiadol. Ers yr ymweliad monitro blaenorol, mae'r ysgol wedi penodi athro amser llawn ac uwch gydlynydd addysg parhaol. Cânt eu cefnogi'n dda gan athro rhan-amser dros dro. Mae gan yr ysgol gynlluniau pendant i benodi athro amser llawn ychwanegol yn ystod tymor yr haf. Mae staff gofal preswyl yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda mewn gwersi ac mewn gweithgareddau addysg oddi ar y safle.

**Argymhelliad 4: Ceisio cyngor perthnasol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyfer defnyddio offer arbenigol**

Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach

Nid yw'r offer arbenigol y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad blaenorol yn cael ei ddefnyddio mwyach.

**Argymhelliad 5: Adolygu polisi ac ymarfer yr ysgol o ran rheoli ymddygiad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gan yr ysgol bolisi addas ar reoli ymddygiad ac mae staff addysg yn ei weithredu'n gyson. Yn ddiweddar iawn, mae'r perchennog wedi buddsoddi mewn adnodd ar-lein i olrhain ymddygiad, sy'n cael ei ddefnyddio i gofnodi pob enghraifft o ymddygiad heriol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i arfarnu ei effaith ar

ddadansoddi patrymau ymddygiad a gwella ymarfer o ran rheoli ymddygiad yn yr ysgol.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae bron pob un o'r staff wedi mynychu ystod briodol o hyfforddiant ar strategaethau lleddfu a rheoli ymddygiad heriol yn ddiogel.  O ganlyniad, mae staff yn rheoli'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn hyderus.

Mae gan yr holl ddisgyblion asesiadau risg priodol a chynlluniau datblygu manwl sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i staff am strategaethau lleddfu effeithiol.  Gydag amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwella'u hymddygiad yn yr ysgol ac yn cymhwyso'r medrau a ddysgant yn llwyddiannus yn y gymuned.  Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw'r strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol.  Yn yr achosion hyn, nid oes digon o gymorth ac ymyrraeth therapiwtig ar gael i gefnogi anghenion cymhleth disgyblion.  O ganlyniad, i ychydig ddisgyblion, bu cynnydd nodedig yn nifer y digwyddiadau heriol yn yr ysgol ac yn hyd y digwyddiadau.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, yn unol â Chylchlythyr 005/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru: **Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 158/2015** [3(2)(b)]

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar hyn o bryd, nid yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio â’r gofynion hyn yn llawn, dylai’r ysgol fynd i’r afael â’r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ynystawe Lodge |
| **Rhif yr ysgol** | 6706025 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 30/03/2017 |
| **Perchennog** | Gerald ac Alison Williams |
| **Staff** | 1 athro amser llawn, 1 athro rhan-amser (cyfwerth ag amser llawn - 0.4), 1 uwch gydlynydd dysgu amser llawn |
| **Nifer y disgyblion** | 6 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd a phreswyl |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau’r sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/04/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 24 Ebrill 2015 ac 8 Medi 2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Ms Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Susan Roberts | Arolygydd Tîm |